Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Emyr Roberts
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru

6 Mawrth 2015

Annwyl Emyr

**Gwahoddiad i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd 6 Mai**

Hoffai'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd eich gwahodd chi a Peter Matthews i ddod ger ein bron yn ein cyfarfod ar 6 Mai at 2015.

Pwrpas y sesiwn fydd trafod gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2013. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn pe gallech gyflwyno papur dwyieithog cyn y sesiwn yn amlinellu'r materion allweddol a'r cynnydd a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru ers ei sefydlu, a byddem yn croesawu'r wybodaeth ganlynol yn arbennig:

## Y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol

- Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun diswyddo gwirfoddol, gan gynnwys nifer y staff sydd wedi manteisio ar y cynllun a chyfanswm y gost hyd yn hyn.

## Cynllun Busnes

- Crynodeb o berfformiad y corff yng nghyd-destun Cynllun Busnes 2014-15, gan gynnwys yr adroddiad perfformiad diweddaraf ar y dangosfwrdd corfforaethol;
- Copi o Gynllun Busnes 2015-16, os yw ar gael.

## Trwyddedau

- Y diweddaraf ar nifer y trwyddedau y mae'r corff wedi eu dosbarthu i'w hun yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Hunan-blismona

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn/Tel: 0300 200 6339
E-bost | Email: alun.davidson@cynulliad.cymru

- Crynodeb o unrhyw gamau gorfodaeth neu gamau hunan-blismona y mae'r corff wedi eu cymryd yn erbyn ei hun yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Rhaglenni Ariannu/Grantiau**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am raglenni ariannu partneriaeth a grantiau a'r newidiadau a wnaed i hyn ers i'r corff ddechrau gweithredu.

**Manteision o ran Cost**

- Y proffil diweddara ar fanteision o ran cost y corff, gan gynnwys esboniad o unrhyw newidiadau pellach a wnaed ers mis Mai 2014.

**Y Sefyllfa Ariannol**


- Sefyllfa ariannol ddiweddaraf y corff.

**Buddsoddi i Arbed**

- Manylion yr arian Buddsoddi i Arbed y mae'r corff wedi ei gael hyd yn hyn.

Byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor pe gallech gyflwyno eich papur i'r Clerc erbyn dydd Mercher 22 Ebrill.  Gofynnwch i'ch swyddogion gysylltu â Chlerc y Pwyllgor os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch.

Yn gywir,



**Alun Ffred Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd